Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Imelda Richardson
Prif Arolygydd
AGGCC
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

23 Rhagfyr 2015

Annwyl Imelda

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd, a oedd yn dilyn ein cyfarfod adeiladol ar 25 Tachwedd. Roedd eich llythyr yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod hawliau ac ansawdd bywyd wrth wraidd eich gwaith.

Mae'r wybodaeth hon wedi fy argyhoeddi o'ch ymrwymiad i fodloni fy Ngofynion ar gyfer Gweithredu ac i gyflawni'r canlyniadau a geisir.

Yn benodol, rwyf yn croesawu'r gwaith rydych wrthi'n ei gyflawni o ran fframwaith hawliau dynol, a'ch bwriad i brif-ffrydio hyn yn y Fframwaith Dyfarnu Ansawdd newydd a'r llawlyfrau i Ddarparwyr ac Arolygwyr yn 2016.

Rwyf hefyd yn croesawu datblygiad a gwaith y Fforwm Ansawdd, yn enwedig y fframwaith o gefnogaeth ymarferol wedi'i seilio ar dystiolaeth, er mwyn ysgogi gwella drwy ddull mwy safonol a chyson (comisiynu, darparu ac arolygu trylwyr) mewn meysydd allweddol, megis atal codymau, hydradu, maeth a meddyginiaeth ddiogel.

Er nad ydym yn cyd-weld o ran aseswyr lleyg, rwyf yn croesawu eich ymrwymiad i ymgysylltu'n ehangach â dinasyddion, ac yn falch o glywed eich bod yn trafod â'r Cyngor Iechyd Cymuned i archwilio pa gyfraniad y gallai eu gwirfoddolwyr ei wneud at y gwaith o arolygu a gwerthuso cartrefi gofal.

Diolch am eich ymrwymiad parhaus i wella ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl hŷn.

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru